Trais yn y Cartref

Cwestiynau Cyffredin

Canllaw i ddioddefwyr a thystion

CPS

• Beth yw Trais yn y Cartref?

Dyma sut mae'r Llywodraeth yn diffinio trais yn y cartref:

"unrhyw ddigwyddiad lle ceir ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth [seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol] rhwng oedolion sy'n bartneriaid agos neu a fu'n bartneriaid agos neu aelodau teuluol, ni waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb."

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn pryderu am droseddau sy'n digwydd mewn cyd-destun domestig beth bynnag yw oedran y dioddefwyr a'r camdrinwyr.

• Pwy yw fy nghyfreithiwr?

Nid oes gan ddioddefwyr a thystion gyfreithwyr ar wahân i'w cynrychioli. Ond, mae yna Gôd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau sy'n sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybod gan yr heddlu a'r CPS am bopeth sy'n digwydd a'u bod yn cael eu cynnwys yn eu hachosion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk dan Ddioddefwyr a Thystion.

Ar ben hynny, yn Addewid yr Erlynwyr, mae'r CPS wedi gwneud ymrwymiadau i

ddioddefwyr troseddau, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i farn dioddefwyr wrth wneud penderfyniadau ar achos, sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymaint o gefnogaeth â phosib pan fyddan nhw yn y llys, ac addo y bydd dioddefwyr yn cael gwybod am ddatblygiadau allweddol yn yr achosion y byddant yn rhan ohonynt.

Mae Addewid yr Erlynwyr i'w gael hefyd ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk.

- **A oes unrhyw gefnogaeth ar gael i mi?**

Mae yna nifer o asiantaethau cefnogi arbenigol sy'n gallu rhoi cymorth i ddioddefwyr mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Gall hyn gynnwys: gweithwyr estyn allan, darparu lloches, Cymorth i Fenywod, Gwirfoddolwyr Cymorth i Ddioddefwyr a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais yn y Cartref (IDVA). Bydd IDVA yn gweithio gyda dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel, o ddechrau'r argyfwng drwy gydol proses y llys a thu hwnt.

Bydd Unedau Gofal Tystion hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr achos gan sicrhau bod eich anghenion penodol yn cael eu hystyried drwy gydol yr amser.

Llinell Gymorth 24 awr Trais yn y Cartref
Ffôn: 0808 2000 247

MALE (Llinell Gymorth i Ddynion)
(Llun-Gwe, 10am-1pm a 2-5pm)
Ffôn: 0808 801 0327

Broken Rainbow (Llinell Gymorth LGBT)
(Llun 2-8pm, Mercher 10am-1pm ac Iau 2-8pm)
Ffôn: 0300 999 5428

• Beth fydd y cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd?

Does dim trosedd penodol o 'drais yn y cartref'. Bydd yr erlynydd yn dewis y cyhuddiad sydd orau am ddisgrifio amgylchiadau'r achos. Gallai hyn gynnwys cyhuddiadau fel: ymosod, aflonyddu, difrod troseddol neu ymddygiad bygythiol. Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn disgrifio prawf a rhaid bodloni'r prawf hwnnw er mwyn i erlyniad ddigwydd.

Y mae dau gam i'r prawf: y cam tystiolaethol a cham budd y cyhoedd. Mae'r cam tystiolaethol yn mynnu bod raid i ni fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Os nad oes digon o dystiolaeth, ni all yr achos barhau ni waeth pa mor ddifrifol ydyw. Os yw'r achos yn

pasio'r cam tystiolaethol, yna rhaid i ni benderfynu a yw erlyn er budd y cyhoedd.

- **Pa bethau fydd y CPS yn eu hystyried wrth benderfynu a yw erlyn er budd y cyhoedd?**

Rhaid cael cydbwysedd rhwng barn a buddiannau'r dioddefwr a'r risgiau i'r dioddefwr ac i unigolion eraill. Rhaid i ddiogelwch y dioddefwr ac unrhyw blant fod yn ffactor allweddol i ni ei ystyried. Os oedd plant yn y cartref ble mae camdriniaeth yn digwydd, byddwn eisiau gwybod am yr effaith a gafodd hyn arnyn nhw. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn sy'n ein helpu i benderfynu a yw erlyn er budd y cyhoedd: pa mor ddifrifol yw'r trosedd, niweidiau'r dioddefwr, a oes plant yn rhan o'r mater, a gafodd arf ei ddefnyddio, ac a fu trais o'r blaen.

- **Beth fydd yn digwydd os bydd yr achos yn mynd i'r llys?**

Bydd y diffynnydd yn cael dyddiad i fynychu'r llys. Gall y diffynnydd gael ei ryddhau i fynychu'r llys neu gael ei remandio yn y ddalfa. Yna bydd y llys yn penderfynu a ellir rhoi mechnïaeth i'r diffynnydd (gyda neu heb amodau) neu a ddylai aros yn y ddalfa.

Ar ôl ymddangos yn y llys, gofynnir i'r diffynnydd a yw'n cyfaddef iddo gyflawni'r trosedd (pledio'n euog) neu'n gwadu'r trosedd (pledio'n ddieuog). Gan ddibynnu ar natur y cyhuddiad a difrifoldeb yr achos, fe fydd yn cael ei wrando un ai yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron.

Os yw'r diffynnydd wedi pledio'n euog, gall yr achos gael ei ohirio tan rywbryd eto er mwyn i'r Gwasanaeth Prawf baratoi adroddiadau neu mae'n bosib y bydd y mater yn cael ei benderfynu yn y fan a'r lle. Os yw'r diffynnydd wedi pledio'n ddieuog, bydd dyddiad y treial yn cael ei drefnu. Yn y treial, bydd y llys yn gwrando ar dystiolaeth. Bydd angen i dystion ddod i'r llys i roi eu tystiolaeth yn bersonol, er mewn rhai achosion gellir darllen y dystiolaeth. Bydd y diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n euog os bydd yr ynadon neu'r rheithgor yn sicr bod y diffynnydd wedi cyflawni'r trosedd.

- **A fydd y diffynnydd yn cael mechnïaeth?**

Unwaith y bydd diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd (ble cafodd ei arestio), bydd yr heddlu yn penderfynu a ddylai gael ei ryddhau ar fechnïaeth neu ei gadw yn y ddalfa er mwyn i'r llys

benderfynu. Gallwn ofyn am i'r diffynnydd barhau yn y ddalfa er mwyn eich diogelu chi neu dystion eraill neu er mwyn atal troseddau eraill rhag cael eu cyflawni. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu a, ble bynnag y bydd modd, holi eich barn am amodau mechnïaeth (er enghraifft, gall y diffynnydd fod ag amod i beidio â mynd atoch chi, eich cyfeiriad gartref na'ch plant) ac unrhyw amrywiadau arfaethedig. Yn y pen draw, y llys fydd yn penderfynu a fydd y diffynnydd yn cael mechnïaeth ai peidio. Os bydd y diffynnydd yn torri amodau ei fechnïaeth, gall yr heddlu ei arestio a gall y llys ei remandio yn y ddalfa.

- **Beth os nad wyf eisiau mynychu'r llys na gwneud datganiad arall?**

Os byddwch yn penderfynu nad ydych eisiau mynychu'r llys na gwneud datganiad arall, nid yw'n golygu y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig. Yn hytrach, bydd raid i'r erlyniad ddarganfod pam eich bod wedi gofyn i'r achos gael ei atal, er mwyn gallu penderfynu beth i'w wneud. Bydd yr erlynydd eisiau gwybod y rhesymau pam nad ydych eisiau rhoi tystiolaeth erbyn hyn a gall wneud cais i'r llys am ragor o amser i ymchwilio.

- **A fydd yr achos yn gallu parhau heb i mi gymryd rhan?**

Os bydd gennym ddigon o dystiolaeth i fwrw ymlaen o hyd, gallwn benderfynu parhau heb ddibynnu ar eich tystiolaeth. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol y trosedd (er enghraifft, os bu trais difrifol neu blant yn rhan o'r mater) mwyaf tebygol ydym ni o erlyn, hyd yn oed os byddwch yn dweud nad ydych yn dymuno i ni wneud hynny. Mewn rhai achosion, byddwn hefyd yn gallu gwneud cais i'r llys am fesurau arbennig er mwyn i chi roi'r dystiolaeth orau bosib.

- **A oes unrhyw help ar gael i mi roi fy nhystiolaeth?**

Mae rhoi tystiolaeth yn gallu bod yn brofiad anodd i bobl sydd wedi ddioddef trais yn y cartref. Mewn rhai achosion, gall y llys gytuno y bydd tyst yn cael rhoi tystiolaeth gyda chymorth mesurau arbennig. Rhaid i erlynwyr wneud cais i'r llys am fesurau arbennig ac yna bydd y llys yn penderfynu a fydd yn caniatáu hynny. Bwriad y mesurau arbennig yw helpu tystion dan 17 mlwydd oed, oedolion agored i niwed, tystion sy'n ofni dial a thystion sy'n gofidio neu'n ofni rhoi tystiolaeth.

Dyma enghreifftiau o fesurau arbennig: sgriniau, defnyddio stafell ar wahân (weithiau mewn adeilad gwahanol) gyda chyswllt teledu byw i'r llys, defnyddio cymhorthion cyfathrebu, rhoi tystiolaeth trwy ganolwr (sy'n gallu helpu'r tyst gyfathrebu â'r llys), a gwagio'r oriel gyhoeddus.

- **Sut gallaf roi gwybod i'r llys sut mae hyn wedi effeithio arnaf fi?**

Bydd yr heddlu yn gofyn i chi a fyddech yn hoffi gwneud datganiad personol dioddefwr. Mae datganiad personol dioddefwr yn wahanol i'r datganiad rydych yn ei roi i'r heddlu yn disgrifio'r digwyddiad. Pwrpas y datganiad hwn yw gwneud yn siwr bod y llys yn deall barn y dioddefwr cyn penderfynu ar ddedfryd y diffynnydd.

Trwy'r datganiad hwn, gall dioddefwr trosedd egluro'r effaith a gafodd y trosedd arnyn nhw. Gall hyn gynnwys agweddau corfforol, emosiynol neu ariannol. Mae'r datganiad yn ddewisol. Gellir ei wneud unrhyw bryd ac mae'n bosib gwneud mwy nag un datganiad. Bydd copïau o'r datganiad yn cael eu rhoi i'r amddiffyniad ac i'r llys.

- **Beth all y llys ei wneud ar ddiwedd achos i'm gwneud yn fwy diogel?**

Wrth ddedfrydu, mae llys yn gallu gwneud **gorchymyn atal** (sy'n debyg i waharddeb neu orchymyn rhag molestu) ar ddiwedd yr achos os bydd y llys yn teimlo bod arnoch angen rhagor o ddiogelwch. Y llys fydd yn penderfynu ar yr amodau yn y gorchymyn atal a'i hyd, ar ôl gwrando ar wybodaeth gan y CPS a chyfreithydd yr amddiffyniad. Bydd y llys hefyd yn gallu ystyried unrhyw wybodaeth sydd i'w chael yn eich Datganiad Personol Dioddefwr os ydych wedi dewis gwneud datganiad.

Erbyn hyn gellir gwneud gorchmynion atal ar ôl i ddiffynnydd gael ei gollfarnu o **unrhyw** drosedd. Y mae hyd yn oed yn bosib gwneud gorchymyn atal os bydd y diffynnydd wedi'i gael yn ddieuog os bydd y llys yn penderfynu bod aflonyddu wedi digwydd yn yr achos a bod angen eich diogelu.

Mae gorchmynion atal yn gallu cynnwys llawer o amodau, gan gynnwys y rhai a fydd yn atal diffynnydd rhag cysylltu â chi a hefyd rhag ymweld â'ch cartref neu eich gweithle. Os bydd yr amodau hyn yn cael eu torri, gallant arwain at ddwyn achos o drosedd pellach a dedfryd o garchar o hyd at bum mlynedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y gorchymyn atal i'w chael ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk yn yr adran Adnoddau Cyfreithiol.

- **Gyda phwy y gallaf siarad os nad wyf yn fodlon â'r ffordd y cafodd fy achos ei drin?**

Os bydd gan unrhyw un gŵyn am y ffordd y cawsant eu trin gan y CPS, neu os byddant yn teimlo bod y system cyfiawnder troseddol wedi'u siomi ac nad ydynt yn gwybod pwy sy'n gyfrifol, gallant ysgrifennu at Brif Erlynydd y Goron ar gyfer yr ardal ble maent yn byw.

Mae manylion am bolisi adborth a chwynion y CPS, a'r drefn i'w dilyn, i'w cael ar ein gwefan www.cps.gov.uk

Mae rhagor o gopïau o'r daflen yma ar gael gan:

Is-adran Gyfathrebu y CPS
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS
Ffôn 020 335 70913
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Mawrth 2010